



Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEM Caerdydd

**Ar gyfer blwyddyn adrodd
1 Medi 2019 – 31 Awst 2020**

Cyhoeddwyd Chwefror 2021



Cynnwys

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3	Tudalen
1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol	3
2. Disgrifiad o'r sefydliad	4
3. Crynodeb gweithredol	5
Adrannau tystiolaeth 4 – 7	
4. Diogelwch	10
5. Triniaeth deg a dyngarol	14
6. Iechyd a lles	18
7. Cynnydd a rhyddhau	21
Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol	25
Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	25

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carcharau 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol.
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalffa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â dalfeydd, i fonitro triniaeth ac amodau carcharorion, ac i wneud argymhellion ar gyfer atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae CEM Caerdydd wedi'i leoli yng nghanol y ddinas. Mae'n garchar hyfforddi lleol categori B i ddynion ac mae'n gwasanaethu De Ddwyrain Cymru a Chymoedd De Cymru i raddau helaeth, er bod nifer cynyddol o garcharorion yn cael eu trosglwyddo o garchardai yn Lloegr. Mae'n darparu'n bennaf ar gyfer carcharorion sy'n bwrw dedfrydau tymor byr, carcharorion ar remand a charcharorion sy'n aros am ddedfryd. Mae gan y carchar lety ardystiedig arferol ar gyfer 539 carcharor a chapasiti gweithredu o 779, gyda'r mwyafrif llethol o garcharorion yn rhannu cell rhwng dau. Yn ystod cyfnod cyfyngiadau COVID-19, roedd gan y carchar gapasiti gweithredu wedi'i addasu o 749.

Agorodd y carchar yn 1827, ac mae rhan fawr o'r llety yn dal yn cynnwys tair adain Sioraidd. Fe wnaeth rhaglen adnewyddu fawr yn 1996 arwain at agor tair adain llety newydd. Mae'r carchar hefyd yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau eraill, gan gynnwys campfa, cyfres o weithdai ac ystafelloedd dosbarth. Agorwyd canolfan gofal iechyd newydd ym mis Mai 2008 ac mae'n cynnwys 20 gwely.

Mae'r drefn arferol yn cynnwys addysg amser llawn, cyflogaeth yng ngweithdai'r carchar, a chyrsgiau hyfforddi. Mae uned ailsefydlu yno hefyd, sy'n cynnig cwrs datblygiad cymdeithasol personol a chyrsgiau seiliedig ar waith i garcharorion.

Mae amrywiaeth o ddarparwyr cyhoeddus a masnachol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn y carchar. Caiff gwasanaethau iechyd eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac fe gaiff dysgu a sgiliau eu darparu gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, ond cânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac fe gyflawnir y gwaith cynnal a chadw ar y safle gan Amey. Mae gwasanaethau eraill sy'n dibynnu ar ddarparwyr o'r tu allan i'r carchar yn cynnwys gwasanaethau hebrwng ac adsefydlu cymunedol. Mae nifer o fudiadau gwirfoddol, fel Ymddiriedolaeth St Giles a'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal y Carchar (PACT), hefyd yn darparu gwasanaethau.

3. Crynodeb gweithredol

3.1 Cefndir yr adroddiad

Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd i gasglu gwybodaeth ac i drafod cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn. Felly, mae'r Bwrdd wedi gwneud ei orau i ymdrin â chymaint â phosib yn yr amgylchiadau anodd hyn, ond yn anochel mae llai o fanylder a thystiolaeth ategol na'r arfer. Mae'r Gweinidogion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hyn. Mae gwybodaeth reolaidd yn cael ei chasglu'n benodol am ymateb y carchar i'r pandemig, ac mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu ynghyd ar lefel genedlaethol.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr ymdrech gan reolwyr a staff CEM Caerdydd i ddiogelu'r carcharorion dan eu gofal rhag haint COVID-19 ac i ddarparu system ddyngarol a theg yn ystod y cyfnod anodd hwn.

3.2 Prif farnau

Pa mor ddiogel yw'r carchar?

Barn y Bwrdd yw bod CEM Caerdydd yn garchar eithaf diogel. Mae lefelau trais wedi aros yn isel, ac mae'r Bwrdd yn credu bod hynny'n adlewyrchu'r berthynas dda y mae staff wedi gallu ei meithrin gyda charcharorion yn hanesyddol (gweler adran 4.3).

Fodd bynnag, roedd hunan-niweidio'n parhau i fod yn bryder mawr, ac mae nifer yr achosion wedi cynyddu eto eleni. Yn benodol, yn 6 mis cyntaf y flwyddyn adrodd, fe wnaeth nifer yr achosion o hunan-niweidio gynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018-2019 – o 301 i 449. Er bod modd priodoli 29% o'r achosion o hunan-niweidio i gyfran fechan o garcharorion, roedd y ffigurau hyn, ynghyd â'r pedwar carcharor a fu farw eleni, wedi peri pryder i'r Bwrdd ynghylch y mater hwn (gweler paragraffau 4.2.1 a 4.2.3).

Pa mor deg a dyngarol gaiff carcharorion eu trin?

Roedd y Bwrdd yn fodlon bod y rhan fwyaf o garcharorion, fel arfer, wedi cael eu trin yn deg ac yn ddyngarol. Roedd y drefn gyfyngedig, a roddwyd ar waith yn ystod COVID-19, yn codi rhai pryderon ynghylch tynnu setiau teledu oddi ar rai carcharorion ar lefel sylfaenol y cynllun cymhellion a breintiau haeddiannol (IEP) (gweler paragraff 5.6.2). Cafodd y cyfyngiad parhaus ar y drefn, yn enwedig rhwng diwedd mis Mai a mis Awst 2020 pan nad oedd unrhyw achosion cadarnhaol o COVID-19 yn y carchar, effaith niweidiol ar y gallu i drin carcharorion yn ddyngarol ac yn deg (gweler paragraff 6.1.6).

Mae gennym bryderon o hyd ynghylch lefel y cyswllt y gall gwladolion tramor sy'n garcharorion neu yn y ddalfa ei gael gyda chynrychiolydd y Swyddfa Gartref, a'r gwasanaeth a gânt gan y Swyddfa Gartref (gweler paragraff 5.4.3).

Pa mor dda mae anghenion iechyd a lles carcharorion yn cael eu diwallu?

Mae gwelliant wedi bod o ran mynediad carcharorion at gymorth iechyd meddwl, gyda chymorth y grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd y

prinder staff yn parhau i beri pryder i'r Bwrdd, gan ei fod yn lleihau gallu'r tîm gofal iechyd i ddarparu gwasanaeth cyson (gweler paragraffau 6 1.1, 6.1.2 a 6.2.1).

Yn ystod pandemig COVID-19, roedd gwasanaethau a oedd yn cefnogi iechyd a lles carcharorion wedi'u cyfyngu, ar adeg pan oedd lefel yr angen amdanynt yn uchel iawn (gweler paragraffau 4.6.3, 7.4.1 a 7.4.2).

Pa mor dda mae carcharorion yn symud ymlaen tuag at ailsefydlu llwyddiannus?

Fe wnaeth yr adran dysgu a sgiliau barhau i gefnogi carcharorion gyda'u hailsefydlu rhwng 1 Medi 2019 a 24 Mawrth 2020 (gweler paragraff 7.2.2).

Roedd y Bwrdd yn falch o nodi bod yr holl garcharorion, o fis Ebrill i fis Awst 2020, wedi cael cynnig llety ar ôl cael eu rhyddhau os oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, cyn y cyfnod hwnnw, roedd llety ar ôl rhyddhau wedi parhau i fod yn broblem, er gwaethaf gwelliant yn yr adnoddau a ddarperir (gweler paragraffau 7.5.6 a 7.5.7).

Mae'n anffodus bod cyfleoedd addysg a hyfforddiant cadarnhaol wedi gorfod dod i ben yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd cyfleoedd hyfforddi, fel y gweithdy barista, yn cynnig cyfleoedd gwaith i garcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Yn ogystal â nifer o weithdai ac addysg yn gorfod cau, cyfyngwyd ar allu'r tîm ailsefydlu i ryngweithio â'r carcharorion (gweler paragraffau 7.2.7 a 7.5.6).

3.3 Prif feysydd datblygu

I'R GWEINIDOG

Mae'r Bwrdd yn ailadrodd ei bryderon ers y llynedd ynghylch cadw ceiswyr lloches mewn fudo mewn sefydliadau caethiwed, gan gynnwys yr uned gofal a gwahanu (CSU) (gweler paragraff 5.2.8). Bu'r flwyddyn hon yn eithriadol o anodd – nid oedd cynrychiolydd y Swyddfa Gartref mewn sefyllfa i gysylltu â cheiswyr lloches rhwng diwedd Mawrth a chanol Mehefin, a dim ond ychydig o gyswllt oedd yn bosibl ar ôl y cyfnod hwnnw (gweler paragraff 5.4.3). Byddai'r Bwrdd unwaith eto yn gofyn i'r Gweinidog godi'r mater hwn gyda'r Swyddfa Gartref a rhoi copi o'r ymateb i'r Bwrdd.

I LYWODRAETH CYMRU

Mae'r Bwrdd wedi bod yn falch o weld rhai gwelliannau dros y flwyddyn o ran carcharorion yn gallu cael llety ar ôl cael eu rhyddhau ac mae'n cymeradwyo cynllun Llywodraeth Cymru i gartrefu pawb sy'n cysgu ar y stryd yn ystod pandemig COVID-19 (gweler paragraffau 7.5.6 a 7.5.7). Gofynnwn a fydd y cynllun hwn yn parhau ar gyfer carcharorion sy'n gadael y ddalfa heb lety?

Er bod gwelliannau wedi bod yn y gwasanaeth iechyd meddwl a gynigir i garcharorion yn CEM Caerdydd, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae diffyg staff yn yr uned gofal iechyd yn gyffredinol, neu oedi o ran cael staff o'r fath, wedi dal y

cynnydd yn ôl (gweler paragraffau 6.1.1 a 6.1). Dymuna'r Bwrdd ofyn i Lywodraeth Cymru godi'r mater hwn gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

I'R GWASANAETH CARCHARDAI

Mae'r Bwrdd wedi bod yn bryderus eleni ynghylch nifer y carcharorion o'r 'tu allan i'r ardal' sy'n cael eu derbyn i CEM Caerdydd. Mae symud carcharorion i sefydliad sydd â system addysg ac iechyd ddatganoledig wedi achosi anawsterau o ran darparu ar gyfer eu lles a lleihau aildroseddu (gweler paragraff 4.1.1). Rydym yn sylweddoli bod y Gwasanaeth Carchardai yn aml dan bwysau i letya carcharorion, ond gofynnwn i'r materion uchod gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau lleoli.

Mae'r amser y mae carcharorion wedi gorfod aros i gael eu trosglwyddo o'r llys i'r sefydliad, gan deithio'n bell yn aml, yn gysylltiedig â'r mater uchod (gweler paragraff 4.1.2). A fyddai modd codi hyn gyda'r cwmnïau trafndiaeth dan gontract?

Tua diwedd y cyfnod adrodd, daeth y Bwrdd yn fwyfwy pryderus am yr effaith roedd trefn gyfyngedig, a oedd wedi para pum mis bryd hynny, yn ei chael ar allu'r carchar i ddarparu amgylchedd diogel, dyngarol a chadarnhaol a oedd yn annog carcharorion i symud ymlaen at ailsefydlu. Roedd hyn er gwaethaf ymdrechion y sefydliad i gefnogi'r carcharorion dan eu gofal (gweler adrannau 4, 5, 6 a 7). Mae'r Bwrdd yn poeni y bydd parhau â'r cyfyngiadau hyn yn y tymor hir yn cael effaith niweidiol arall ar les y carcharorion. Felly, hoffem ofyn pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i lacio'r cyfundrefnau hyn, gan ddibynnu ar lefelau'r haint yn y carchar ac yn y gymuned?

I'R LLYWODRAETHWR

Mae nifer yr achosion o hunan-niweidio yn y carchar wedi parhau i beri pryder i'r Bwrdd, yn enwedig mewn perthynas â'r tair marwolaeth yn ystod y flwyddyn adrodd, a achoswyd gan yr unigolion eu hunain yn ôl pob golwg. Credwn y bydd y carchar yn rhoi unrhyw argymhellion o adroddiadau a chwestau ar waith. Rydym yn cymeradwyo'r sefydliad ar ei ymdrechion i gynnal sesiynau gweithwyr allweddol yn ystod y drefn gyfyngedig, ond gofynnwn i chi ystyried a wnaeth trawsleoli gweithwyr allweddol effeithio ar nifer yr achosion o hunan-niweidio (gweler paragraff 5.3.1).

Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr ymdrechion mae'r sefydliad wedi'u gwneud i wella ei ddealltwriaeth o anghenion carcharorion yn y grwpiau nodweddion gwarchodedig. Rydym yn dal i gredu bod angen gwneud mwy o ymchwil i'r gwahaniaethau o ran nifer y carcharorion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) sydd wedi'u labelu fel carcharorion peryglus (gweler paragraff 5.4.4), a'r rheini o darddiad du a Charibiaidd cymysg sydd wedi'u cadw yn yr uned gofal a gwahanu (gweler paragraff 5.4.5).

Mae'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau defnyddio grym yn bryder i'r Bwrdd. Rydym yn sylweddoli bod y grŵp carcharu mwy diogel yn ceisio gwrthdroi'r duedd hon drwy gydnabod arferion da a hyfforddiant, ond dylid parhau i annog rhoi camerâu corff ar waith yn gynnar (gweler paragraffau 4.5.2 a 4.5.3).

3.4 Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

Materion o'r adroddiad diwethaf	Y cynnydd a wnaed ers yr adroddiad diwethaf
Roedd nifer fawr o achosion o hunan-niweidio yn parhau, er bod ymdrechion wedi'u gwneud i ymchwilio i'r rhesymau dros hyn.	Roedd lefelau hunan-niweidio yn dal yn uchel yn hanner cyntaf y flwyddyn adrodd cyn y cyfyngiadau symud.
Er gwaethaf ymdrechion y carchar i leihau nifer y cyffuriau, yn enwedig sylweddau seicoweithredol newydd (NPS), sy'n dod i'r carchar, mae hon yn dal yn broblem fawr.	Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, hysbyswyd y Bwrdd bod sganiwr i fod i gael ei osod yn y dderbynfa. Gobeithir y bydd hyn yn lleihau faint o gyffuriau sydd ar gael yn y carchar.
Mynegwyd pryderon ynghylch cadw ceiswyr lloches yn y carchar y tu hwnt i'w dedfryd. Roeddent dan fwy o anfantais oherwydd eu bod yn derbyn dogfennau'r Swyddfa Gartref yn Saesneg yn unig, yn hytrach na'u hiaith eu hunain, ac yn wynebu anawsterau wrth geisio cael gafael ar staff y Swyddfa Gartref.	Ychydig o welliant sydd wedi bod yn y maes hwn. Mae'r carcharorion yn dal i dderbyn dogfennau'r Swyddfa Gartref yn Saesneg yn unig. Bu gwelliant ym mhresenoldeb cynrychiolydd y Swyddfa Gartref pan wnaeth y carchar ddarparu mwy o slotiau ar gyfer apwyntiadau ond, yn anffodus, rhwng mis Ebrill a mis Awst, ni ddaeth cynrychiolydd y Swyddfa Gartref i'r carchar oherwydd pandemig COVID-19, er bod rhywfaint o gynadledda dros y ffôn wedi digwydd.
Roedd y diffyg llety ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau'n parhau i fod yn bryder mawr yn y broses ailsefydlu. Nid oedd gan gyfran fawr o garcharorion lety ar y diwrnod roeddent yn cael eu rhyddhau, a oedd nid yn unig yn annynol, ond hefyd yn ffactor pwysig o ran aildroseddu.	Roedd hyn yn dal yn broblem. Fodd bynnag, yn ystod pandemig COVID-19, cynigiwyd llety i bob carcharor nad oedd ganddo lety i fynd iddo pan oedd yn cael ei ryddhau.
Mae CEM Caerdydd wedi gwella'n sylweddol o ran uwchraddio amgylchedd ffisegol y carchar. Fodd bynnag, mae heriau parhaus o hyd o ran cynnal a chadw'r adeilad, a dylid eu cydnabod a darparu adnoddau digonol ar eu cyfer.	Mae CEM Caerdydd yn parhau i ymdrechu i gynnal safon dda o lanweithdra yn y sefydliad. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, mae wedi parhau i geisio gwella'r amgylchedd ffisegol drwy roi cyfle i'r carcharorion weithio ar baentio.
Nodwyd bod y broses o graffu ar ddefnyddio grym wedi gwella, ac i wella hyn ymhellach, dylid atgyfnerthu ac annog swyddogion i ddefnyddio camerâu corff.	Mae defnydd camerâu corff ymysg swyddogion wedi cynyddu a dylid parhau i annog hynny, yn yr un modd ag y dylid 'rhoi camerâu ar waith yn gynnar'.

<p>Mae'n ymddangos bod carcharorion o gefndir BAME, ar adegau, yn cael eu cynrychioli'n anghymesur mewn dyfarniadau ac yn yr uned gofal a gwahanu. Er ei bod yn bosibl bod rhesymau dilys dros hyn, mae'r data'n awgrymu y byddai'n werth ymchwilio ymhellach i'r rhesymau hynny.</p>	<p>Mae'r gwahaniaeth ar gyfer carcharorion o gefndir Caribiaidd wedi bod yn gyson ers tair blynedd. Nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw ymchwiliad i'r ffigurau hyn.</p>
<p>Nid yw'r uned gofal a gwahanu yn darparu data i'r tîm amrywiaeth a chydraddoldeb (DEAT). O ystyried y pryder a godwyd uchod, dylai'r carchar ystyried dulliau o ddarparu'r data yma fel mater o drefn.</p>	<p>Mae'n ymddangos bod yr uned gofal a gwahanu yn darparu data i'r tîm amrywiaeth a chydraddoldeb yn achlysurol.</p>

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch

Arweinir y ddalffa fwy diogel gan lywodraethwr, gyda chefnogaeth dau reolwr dalffa, tri swyddog a dau gynorthwydd busnes sy'n darparu cymorth gweinyddol. Roedd y grŵp yn gyfrifol am nifer o gyfarfodydd, gan gynnwys y cyfarfod misol ynghylch dalffa fwy diogel a'r cyfarfod llywodraethu misol ynghylch defnyddio grym, a gadeiriwyd gan y Llywodraethwr. Cynhaliwyd cyfarfod wythnosol ynghylch defnyddio grym hefyd, a oedd yn adolygu'r holl achosion o ddefnyddio grym, yn ogystal â chyfarfod wythnosol ynghylch y cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP). Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth amlddisgyblaethol o InReach (darparwr gofal iechyd meddwl), yr adran gofal iechyd, rheolwyr achos CSIP, staff dalffa fwy diogel, cydweithwyr seicoleg, staff o'r uned rheoli troseddwr a staff prawf. Roedd y llywodraethwr a oedd yn gyfrifol am ddalffa fwy diogel hefyd yn gyfrifol am y grŵp diogelwch – sydd, ynghyd â dalffa fwy diogel, yn cynnwys yr uned gofal a gwahanu, adain B1 (ar gyfer carcharorion agored i niwed) a'r adran gofal iechyd – a bu'n goruchwyllo'r broses asesu, gofal yn y ddalffa a gwaith tîm (ACCT). Mae'r tîm dalffa fwy diogel wedi'i leoli yn yr uned gofal iechyd, ac mae'r timau'n cydweithio'n agos.

4.1 Derbyn a chynefino

4.1.1 Ar un adeg yn ystod y flwyddyn, yn ystod mis Rhagfyr 2019, derbyniodd y carchar nifer uwch na'r cyfartaledd o garcharorion o'r tu allan i'r ardal. Ar 5 Rhagfyr 2019, roedd cyfanswm o 141 o garcharorion, ac roedd naw ohonynt wedi dod yno yn dilyn problemau mewn sefydliadau eraill. Achosodd hyn nifer o broblemau yn ymwneud ag anawsterau o ran cael ymweliadau, heriau wrth ddelio â gwahanol awdurdodau iechyd, a rheoli ailsefydlu ledled y DU, yn ogystal â phryderon a fynegwyd eisoes gan garcharorion o Loegr am gael eu carcharu mewn 'gwlad dramor'.

4.1.2 Mae pryder y Bwrdd ynghylch faint o amser sydd rhwng carcharorion yn ymddangos yn y llys a'r amser maent yn cyrraedd y sefydliad yn y pen draw hefyd yn gysylltiedig â hynny. Er enghraifft, ar 31 Ionawr 2019, cafodd y carchar ei hysbysu am 12.15pm y byddai carcharor yn cyrraedd o lys yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Cyrhaeddodd yn y diwedd am 7.20pm – roedd dros saith awr rhwng dyfarniad y llys a'r amser y cyrhaeddodd y carchar.

4.1.3 Yn ystod cyfnod cyfyngiadau COVID-19, cafodd yr adain gynefino ei throï'n uned cohort dros dro, lle roedd yn rhaid i garcharorion newydd aros am gyfnod cwarantîn o 14 diwrnod, cyn cael eu trosglwyddo i un o'r adeiniau preswyl. Oherwydd y cynnydd yn y niferoedd oedd yn cyrraedd, a'r oedi cyn gallu symud carcharorion i adain, bu'n rhaid ehangu'r uned cohort dros dro i gynnwys lefelau 4 a 5 adain E hefyd. Roedd y sesiynau cynefino cyffredinol yn dal i gael eu cynnal pan oedd carcharorion wedi'u lleoli yn yr uned cohort dros dro, ond nid oedd modd cynnal sesiynau cynefino mwy arbenigol, fel ailsefydlu ac adsefydlu defnyddwyr cyffuriau, wyneb yn wyneb ar yr adain.

4.1.4 Yn ystod mis Mai, pan nad oedd cynghorwyr cymheiriaid ailsefydlu'n cael mynd i'r dderbynfa/adeiniau cynefino, roedd dau o'r cynghorwyr cymheiriaid presennol o'r adain yn helpu gyda hyn. Roeddent yn cael eu briffio'n ddyddiol gan y tîm ailsefydlu, a darparwyd gwybodaeth a thafleuni iddynt eu rhannu â'r carcharorion. Buont hefyd yn helpu carcharorion yn yr uned cohort dros dro i gwblhau gwaith papur. Ers hynny, mae'r ddau garcharor hyn wedi cael eu rhoi ar gymhwyster galwedigaethol cenedlaethol (NVQ) yn unol â chyngor ac arweiniad gan y tîm ailsefydlu.

4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa

4.2.1 Bu pedair marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd. Cadarnhawyd mai achosion naturiol oedd yn gyfrifol am un ohonynt a bod tri ohonynt wedi'u hachosi gan yr unigolion eu hunain, a bod un o'r rheini yn yr uned cohort dros dro. Rydym yn aros am gwestau. Ym mhob achos, cynigiwyd cefnogaeth i staff a charcharorion. Penodwyd swyddog cyswllt teulu ar gyfer pob achos, ac fe gyfathrebwyd yn briodol â'r teuluoedd. Mae hon yn duedd sy'n peri pryder, oherwydd roedd y tair marwolaeth ym mlwyddyn adrodd 2018/19 i gyd wedi deillio o achosion naturiol.

4.2.2 Roedd hunan-niwedio yn parhau i fod yn bryder mawr yn y sefydliad. Yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn adrodd, o 1 Medi 2019 ymlaen, roedd 449 achos o hunan-niwedio, o'i gymharu â 301 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Yn ystod y chwe mis olaf, a ddaeth i ben ar 31 Awst 2020, cafwyd 263 achos o hunan-niwedio, o'i gymharu â 406 achos ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Cyfanswm y digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn adrodd oedd 712, o'i gymharu â 707 y llynedd. Fodd bynnag, roedd nifer yr achosion wedi'i gamystumio gan unigolion a oedd yn hunan-niwedio'n aml, a oedd yn gyfrifol am 29% o'r rhain, gydag un carcharor yn cyfrannu at 8% o ddigwyddiadau hunan-niwedio'r sefydliad dros flwyddyn gyfan, gan gynnwys nifer o achosion yn ystod yr un diwrnod.

4.2.3 Roedd gostyngiad amlwg yn nifer yr achosion o hunan-niwedio rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020, sef pedwar mis cyntaf y drefn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau COVID-19, gyda 38 digwyddiad y mis ar gyfartaledd, o'i gymharu â 67 y mis rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020. Roedd y prif resymau dros hunan-niwedio yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys: materion yn ymwneud â meddyginiaeth (gofyn am fethadon yn bennaf); yr amser a dreuliwyd mewn cell; rhwystredigaeth gyda staff/y drefn; problemau iechyd meddwl; a diffyg cyflogaeth. Daeth y Bwrdd i'r casgliad y gallai hunan-niwedio sy'n gysylltiedig â'r galw am fethadon fod wedi deillio o'r ffaith ei bod yn anoddach cael gafael ar sylweddau anghyfreithlon o ganlyniad i'r drefn gyfyngedig. Ym mis Awst gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o'i gymharu â'r misoedd blaenorol, i 51, er mai chwe carcharor oedd yn gyfrifol am 26 o'r rhain (51%), gan gynnwys hunan-niwediwr mwyaf cyson y sefydliad, a oedd yn gyfrifol am gyfanswm o 55 achos yn ystod y flwyddyn adrodd, er nad oedd yn garcharor am y 12 mis llawn.

4.2.4 Y broses ACCT yw'r weithdrefn cynllunio gofal ar gyfer carcharorion y nodwyd eu bod mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niwedio. Agorwyd 452 ACCT yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn, a 354 yn ystod yr ail chwe mis. Er bod llai o

brosesau ACCT yn ail hanner y flwyddyn, roedd cynnydd amlwg yn nifer y prosesau ACCT a gafodd eu hagor yn y dderbynfa a'r uned cohort dros dro yn ystod y cyfnod hwn. Ar gyfartaledd, roedd 47% o'r holl brosesau ACCT a agorwyd bob mis rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020 yn dod o'r ardaloedd hyn. Barn y Bwrdd yw bod hyn yn adlewyrchu pryderon carcharorion am COVID-19 a'r drefn arbennig o gyfyngedig yn ystod eu 14 diwrnod cyntaf yn y ddalfa, yn ogystal â ffocws cynyddol y sefydliad ar y carcharorion yn ystod y cyfnod bregus hwn.

4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

Mae lefelau trais yn parhau i fod yn isel. Yn y saith mis cyn y cyfyngiadau symud, roedd 12 digwyddiad treisgar y mis yn erbyn carcharorion neu staff ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r llynedd, lle bu 21 ymosodiad yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn adrodd ar gyfartaledd. Yn ystod y pum mis rhwng mis Ebrill a mis Awst, roedd 13 digwyddiad treisgar y mis ar gyfartaledd. Mae'n peri pryder bod wyth ymosodiad yn erbyn staff wedi bod ym mis Mehefin, sydd, ym marn y Bwrdd, yn dystiolaeth o rwystredigaeth gynyddol gyda'r drefn gyfyngedig; fodd bynnag, fe wnaeth y nifer hwn ostwng i chwech ym mis Awst.

4.5 Defnyddio grym

4.5.1 Mae digwyddiadau defnyddio grym wedi cynyddu 7% yn ystod y flwyddyn adrodd hon, o 724 yn 2018/19 i 772 yn 2019/20. Roedd hanner cyntaf y flwyddyn fwy neu lai yn union yr un fath, gyda 347 y llynedd o'i gymharu â 346 eleni. Fodd bynnag, adlewyrchir y newid mwy arwyddocaol wrth gymharu ail hanner y flwyddyn, lle mae'r ffigur wedi codi o 377 y llynedd i 426 eleni – cynnydd o 13% ar gyfer yr un cyfnod o chwe mis. Y mis lle cafwyd y nifer mwyaf o ddigwyddiadau oedd Ebrill 2020, gydag 83, a'r misoedd â'r niferoedd lleiaf oedd Rhagfyr 2019 a Mai 2020, ill dau gyda 52 o ddigwyddiadau.

4.5.2 Roedd y digwyddiadau'n cael eu hadolygu'n wythnosol yn y cyfarfod llywodraethu ar ddefnyddio grym, a arweiniodd at rai swyddogion yn derbyn cydnabyddiaeth am berfformiad neu hyfforddiant pellach, neu at fod yn destun ymchwiliad i'r digwyddiad. Roedd y Bwrdd yn mynd i'r adolygiadau hyn yn rheolaidd, ac roedd y sefydliad yn agored i gwestiynau aelodau'r bwrdd yn yr adolygiadau hyn.

4.5.3 Un o bryderon y Bwrdd yw'r diffyg defnydd o gamerâu corff ar adegau, yn enwedig wrth roi gefynnau bar anhyblyg ar garcharorion, a bu rhai anafiadau eleni, gan gynnwys arddwrn wedi torri. Codwyd y diffyg defnydd hwn yn adroddiad y Bwrdd y llynedd; fodd bynnag, er ei fod yn dal yn destun pryder, mae'r defnydd o gamerâu corff wedi gwella. Mae'r mater hwn yn cael ei gydnabod gan y grŵp llywodraethu ar ddefnyddio grym ac mae camau'n parhau i gael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

4.5.4 Cytunwyd y gellid ddefnyddio chwistrell PAVA, chwistrell pupur synthetig sy'n analluogi'r rheini y caiff ei chwistrellu arnynt dros dro, ym mis Gorffennaf 2020, ond nid yw wedi cael ei ddefnyddio yn y sefydliad hyd yma.

4.6 Camddefnyddio sylweddau

4.6.1 Cafwyd 372 achos o ganfod cyffuriau yn ystod y flwyddyn adrodd. Yn y chwe mis cyntaf, roedd 33 achos o ganfod cyffuriau bob mis ar gyfartaledd. Fe wnaeth hyn ostwng i 29 y mis yn ail hanner y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ystod yr ail chwe mis (mis Mawrth i fis Awst), fe wnaeth nifer yr achosion o ganfod cyffuriau ostwng yn gyffredinol bob mis, gan ostwng i gyfartaledd o 19 achos y mis dros fis Gorffennaf a mis Awst 2020. Mae hyn yn adlewyrchu effaith y camau diogelwch a gymerwyd gan y sefydliad yn sgil y cyfyngiadau symud, gan gynnwys atal ymweliadau cymdeithasol a threfn gyfyngedig, a oedd ill dau'n cyfyngu ar y cyfleoedd i gyffuriau ddod i mewn i'r carchar. Er bod llai o achosion o ganfod cyffuriau anghyfreithlon wedi bod yn ystod cyfnod y drefn gyfyngedig hon, cafodd mwy o feddyginiaeth ar bresgripsiwn ei chanfod, wrth i garcharorion chwilio am ffynonellau eraill.

4.6.2 Yn ogystal â'r gostyngiad yn nifer yr achosion o ganfod cyffuriau, bu gostyngiad yn nifer y digwyddiadau 'cod glas' (argyfyngau meddygol nad ydynt yn cynnwys gwaed) a gyhoeddwyd. Roedd 28 digwyddiad cod glas y mis ar gyfartaledd rhwng mis Medi 2018 a mis Ebrill 2019, ond dim ond 13 galwad y mis a gafwyd yn y cyfnod cyfatebol yn ystod y flwyddyn adrodd hon, er y cydnabyddir nad oes modd priodoli pob digwyddiad cod glas i gamddefnyddio cyffuriau.

4.6.3 Dim ond ers diwedd mis Mawrth 2020 y mae Dyfodol, y gwasanaeth adsefydlu defnyddwyr cyffuriau, wedi gallu cynnig cymorth cyfyngedig.

5. Triniaeth deg a dyngarol

5.1 Llety, dillad, bwyd

5.1.1 Fel y nodwyd y llynedd, roedd adeiladau'r carchar yn dal i osod cyfyngiadau llym ar garcharorion ag anabledd corfforol. Roedd ardaloedd cyfan o'r carchar, fel y brif gyfres o ystafelloedd addysg, yn anhygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

5.1.2 Bu brwydr barhaus i oresgyn problem llygod mawr. Adroddwyd iddynt gael eu gweld ym mis Tachwedd 2019 mewn nifer o leoliadau, ond yn bennaf yn yr ardal rhwng adain F a'r ganolfan iechyd. Gwelwyd rhagor ym mis Ionawr 2020 ar ben grisiau A1. Ni chafwyd rhagor o adroddiadau weddill y flwyddyn.

5.1.3 Darparwyd sianeli teledu ychwanegol i helpu i leddfu diflastod yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19. Fodd bynnag, cafwyd problem gyson gyda charcharorion yn methu â chael mynediad at bob sianel mewn rhannau penodol o'r carchar. Mae peirianwyr teledu wedi mynychu'n rheolaidd er mwyn ceisio datrys y broblem, ond roedd charcharorion yn dal i ddweud bod hyn yn achosi blinder iddynt.

5.1.4 Mae wedi bod yn galonogol gweld timau glanhau, yn rheolaidd ar hyd a lled y carchar, yn glanhau arwynebau gweini, canllawiau, handlenni drysau, cawodydd, toiledau ac yn y blaen, mewn ymdrech i osgoi unrhyw drosglwyddo haint yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.

5.1.5 Mae cyflwr cyffredinol y carchar wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda drwy gydol y flwyddyn, gyda thimau peintio'n gweithredu mewn sawl lleoliad, ac mae sbwriel wedi cael ei gasglu gydol y flwyddyn.

5.2 Cadw ar wahân

5.2.1 Mae'r uned gofal a gwahanu yn uned hunan-gynhaliol, gyda naw cell weithredol a thîm craidd sy'n cynnwys wyth swyddog a dau uwch swyddog. Mae aelodau'r Bwrdd wedi sylwi bod yr uned yn cael ei rheoli'n dda, ei bod yn olau, yn cael ei hawyru'n dda ac yn lân iawn.

5.2.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaeth aelodau'r Bwrdd 112 o ymweliadau â'r carcharorion yn yr uned gan siarad â'r holl garcharorion. Fel arfer, roedd hyn gyda drws y gell heb ei gloi oni bai nad oedd yn ddiogel gwneud hynny. Pe bai carcharor yn dymuno siarad ag aelod yn breifat, byddai'r swyddog yn symud yn ôl i bellter lle na allai glywed ond gallai arsylwi ar y sgwrs. Fel arfer, roedd pedwar swyddog ar yr uned ar unrhyw adeg. Gwelwyd bod y swyddogion hyn yn ymgysylltu â charcharorion gyda pharch a gofal, ac yn eu rheoli'n broffesiynol, hyd yn oed pan oedd achosion o ymddygiad heriol.

5.2.3 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd 19 o garcharorion yn destun ACCT yn yr uned gofal a gwahanu.

5.2.4 Mae aelodau'r Bwrdd wedi arsylwi dyfarniadau'n rheolaidd ac wedi adrodd bod y sesiynau hyn wedi eu cynnal yn deg ac yn eglur. Roedd yr holl waith papur angenrheidiol ar gael i'r aelodau ei weld a dywedwyd ei fod mewn trefn. 1,133 oedd nifer y dyfarniadau yn hanner cyntaf y flwyddyn, i lawr 188 ar y 1,321 a gofnodwyd ar gyfer yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Yn ystod ail hanner y flwyddyn (a oedd yn cyd-daro â chyfnod cyfyngiadau symud COVID-19) roedd 1,054 o ddyfarniadau, a oedd gryn dipyn yn is (gan 338) na'r 1,392 o ddyfarniadau a gynhaliwyd yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Cyfeiriwyd cyfanswm o 91 o ddyfarniadau at y dyfarnwr annibynnol yn ystod y flwyddyn.

5.2.5 Cychwynnwyd dyfarniadau o ganlyniad i'r ffaith fod gan garcharorion eitemau diawdurdod (er enghraifft ffonau symudol neu gyffuriau), defnyddio ymddygiad bygythiol, digwyddiadau o ymosod a gwrthod ufuddhau i orchymyn.

5.2.6 Roedd adolygiadau ar garcharorion a oedd yn cael eu cadw yn yr uned gofal a gwahanu dan reolau trefn dda a/neu ddisgyblaeth (GOOD) yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i fod yn bresennol. Fodd bynnag, ar sawl achlysur yn gynnar yn ystod y flwyddyn adrodd, cafodd yr adolygiadau hyn eu gohirio neu bu oedi ar fyr rybudd, a oedd yn achosi rhwystredigaeth i aelodau.

5.2.7 Yn ystod y cyfnod adrodd, mae pum carcharor wedi'u cyfyngu i'r uned am dros 42 diwrnod, cynnydd o dri ers y llynedd. Mae rhai o'r cyfyngiadau hyn wedi bod ar gyfer carcharorion sy'n aros am leoliad seiciatrig ar ôl cael eu hanfon i ysbyty meddwl.

5.2.8 Ffactor sy'n peri pryder yw'r anhawster o symud gwladolion tramor i leoliad mwy addas. Mae mynediad at y Gwasanaeth Mewnffudo wedi bod yn anodd iawn i rai carcharorion a'r rhai sydd wedi cael eu cadw yn yr uned gofal a gwahanu.

5.2.9 Yn ystod y cyfnod adrodd, bu 15 o garcharorion BAME yn yr uned, ac nid yw hynny'n anghymesur ar gyfer y boblogaeth.

5.2.10 Cafwyd pedair 'protest fudr' yn yr uned gofal a gwahanu yn ystod y flwyddyn. Roedd swyddogion wedi rheoli'r digwyddiadau hyn yn gywir, yn broffesiynol a gyda phenderfyniad. Roedd eu mewnbwn wedi cyflymu'r broses o roi terfyn ar y brotest yn gyflym.

5.3 Perthynas staff/carcharorion, gweithwyr allweddol

5.3.1 Roedd cyfanswm y rhyngweithio gyda gweithwyr allweddol yn ystod mis Ionawr 2020 yn 1,454 o sesiynau, gostyngiad o 77 o sesiynau o'i gymharu â mis Rhagfyr 2019, sy'n adlewyrchu cyfradd cydymffurfio gyfartalog o 45%. Materion staffio oedd y prif reswm a roddwyd am y gostyngiad, gyda lefelau uchel o absenoldeb a salwch staff yn gorfodi traws-leoli.

5.3.2 Ym mis Ebrill 2020, cynhaliodd y carchar arolwg i ganfod sut roedd carcharorion yn teimlo am y drefn gyfyngedig a oedd yn cael ei gorfodi o ganlyniad i COVID-19. Ymatebodd cyfanswm o 119 o garcharorion i'r arolwg. Yn gyffredinol, roedd yr adborth a roddwyd yn gadarnhaol. Roedd saith deg allan o 119 naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod 'staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am newidiadau i'r drefn oherwydd COVID-19'. Dywedodd saith deg un fod 'y carchar wedi ymateb yn y ffordd iawn i geisio cadw pawb yn ddiogel'. Yn ogystal, cytunodd 88 'Rwyf yn cael fy nhrin yn deg gan staff'. Mynegwyd lefelau boddhad is ar gyfer rhai cwestiynau yn ymwneud â lles meddyliol. Er enghraifft, roedd 42 allan o 119 yn cytuno 'ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau, mae'r staff wedi gofyn i mi sut rydw i'n ymdopi', ond dim ond 37 allan o 119 oedd yn cytuno 'bod modd trefnu apwyntiadau gofal iechyd', a dim ond 26 o'r 64 a ymatebodd a ddywedodd 'Rwyf yn teimlo fy mod yn cael cefnogaeth gan staff gofal iechyd meddwl'.

5.3.3 Mae'r sefydliad wedi gwneud ymdrechion da i gyfathrebu â'r carcharorion ynghylch newidiadau angenrheidiol yn ystod y pandemig. Cynhaliodd fforwm wythnosol ar gyfer 'gynrychiolwyr COVID' o bob adain, i helpu i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau gyda materion gan y carcharorion a darparu rhagor o gyfathrebiadau iddynt.

5.3.4 Yn ystod cyfyngiadau COVID-19, roedd sesiynau gweithwyr allweddol gyda'r carcharorion yn parhau, ond ar lefel is. Fel enghraifft o'r gostyngiad, cynhaliwyd 1,477 o sesiynau ym mis Gorffennaf 2019, a 407 o sesiynau ym mis Gorffennaf 2020 – 28% o ryngweithio'r flwyddyn flaenorol. Am gyfnod o 10 mis yn 2018/19, roedd gweithgareddau gweithwyr allweddol ar lefel o tua 1,400 sesiwn y mis, ond ar gyfer yr un cyfnod o 10 mis yn 2019/20, roedd hyn wedi gostwng i 667 o sesiynau y mis, sef 47% o'r gweithgarwch arferol.

5.3.5 Cafodd sesiynau misol cefnogi grŵp gweithwyr allweddol eu hatal ar ddechrau'r drefn gyfyngedig, er y rhoddwyd cefnogaeth gan yr adran seicoleg ym mis Mehefin. Roedd hyn ar ffurf clinigau galw heibio wythnosol, lle gallai gweithwyr allweddol drafod achosion cymhleth a derbyn hyfforddiant gwydnwch.

5.3.6 Yn ystod y drefn gyfyngedig, blaenoriaethwyd cyswllt gweithwyr allweddol ar gyfer carcharorion a oedd yn agored i niwed, a darparwyd archwiliadau lles ar eu cyfer. Cysylltwyd yn wythnosol â charcharorion mewn grwpiau penodol ag anghenion uwch, gan gynnwys:

- y rhai ar ACCT
- pobl ifanc sy'n gadael gofal (plant yn derbyn gofal)
- rhai â phroblemau iechyd meddwl
- y rhai ar CSIP
- rhai y gwelir eu bod yn ymdopi'n wael.
- pob carcharor yn yr uned gofal a gwahanu
- pob carcharor dan Reol 45
- carcharorion yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel o niwed i'r cyhoedd, o fewn 28 diwrnod ar ôl eu rhyddhau.

5.3.7 Rhoddwyd canllawiau i staff i strwythuro eu rhyngweithio mewn perthynas â'r gwiriadau lles. Roedd gweithwyr allweddol yn gweithredu o fewn eu hadeiniau eu hunain, i helpu i gyfyngu ar y cyfleoedd i groes-heintio.

5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

5.4.1 Cyn y drefn dan gyfyngiadau COVID-19, cynhaliwyd cyfarfod DEAT bob mis, ac roedd uwch staff yn bresennol hyd at lefel Dirprwy Lywodraethwr o leiaf. Cafodd y cyfarfodydd eu cyflwyno gyda data monitro misol ac adroddiadau rheolaidd ar y cynnydd o ran mynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a nodwyd yn y carchar. Cafodd cyfarfodydd DEAT eu hatal ym mis Mawrth 2020.

5.4.2 Roedd dau swyddog yn cyflawni rôl y swyddog amrywiaeth ar sail rhannu swydd ac yn mynd ati'n frwd i sefydlu cynrychiolwyr amrywiaeth carcharorion ar yr adeiniau. Buont hefyd yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd o grwpiau ffocws carcharorion ar gyfer y nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, roedd trosiant rheolaidd carcharorion yn golygu bod y trefniadau hyn yn anodd iawn i'w cynnal, ac, yn ymarferol, roedd llawer o'r swyddogaeth o gynrychioli materion yn ymwneud ag amrywiaeth carcharorion yn dod i ran un carcharor gwyn Prydeinig hirdymor. Pan ddechreuodd pandemig COVID-19, nid oedd y ddau swyddog a oedd yn rhannu rôl y swyddog amrywiaeth ar gael. Roedd y carchar yn brydlon wrth benodi rhywun i gymryd ei le, er bod y dyraniad amser wedi'i leihau'n sylweddol. Rhoddwyd blaenoriaeth gychwynnol i adolygu cynlluniau personol gadael mewn argyfwng ar gyfer carcharorion ag anabledd, a chynhaliwyd fforwm BAME ym mis Mehefin. Fodd bynnag, er bod y swyddog yn cyflawni ei gyfrifoldebau amrywiaeth yn gydwobodol o fewn yr amser a oedd ar gael, bu gostyngiad sylweddol anochel mewn gweithgarwch.

5.4.3 Ceisiodd y carchar wella'r trefniadau ar gyfer carcharorion a gedwir ar warantau IS91 (ar gyfer carcharorion tramor a oedd wedi cwblhau eu dedfryd ac wedi parhau i gael eu cadw yn y ddalfa ar ran y Swyddfa Gartref). Roedd y carchar wedi creu mwy o slotiau apwyntiadau ar gyfer cynrychiolydd y Swyddfa Gartref, a chafodd fforwm o gynrychiolwyr IS91 ei greu hefyd. Rhai o'r symudiadau cadarnhaol eraill oedd cyflwyno taflen arweiniad amlieithog a gwersi defnyddio'r Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) i sefydlu materion sy'n peri pryder ymysg carcharorion IS91. Fodd bynnag, roedd cynrychiolydd y Swyddfa Gartref wedi rhoi'r gorau i fynd i'r carchar pan ddechreuodd pandemig COVID-19 ym mis Mawrth. Roedd telegynadledda ar gael o ganol mis Mehefin ymlaen, ac roedd ymweliadau wyneb yn wyneb wedi aildechrau ym mis Awst. Roedd dogfennau cyfreithiol yn parhau i fod yn Saesneg yn unig, nid oedd cymorth cyfreithiol ar gael o hyd, ac roedd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran achosion yn dal i gael ei gohirio'n rheolaidd. Roedd y Bwrdd yn dal i fod yn bryderus iawn ynghylch cefnogaeth y Swyddfa Gartref i'r carcharorion hyn.

5.4.4 Roedd cyfran y carcharorion BAME yn amrywio rhwng 16% a 23% o boblogaeth y carchar. Roedd data monitro mewn perthynas â defnyddio grym a dyfarniadau yn dangos bod tueddiadau ar gyfer carcharorion BAME yn cyd-fynd yn gyffredinol â phroffil poblogaeth y carchar. Un maes lle'r oedd gwahaniaeth mawr o ran carcharorion BAME oedd y rheini a oedd yn cael eu labelu fel carcharorion peryglus. Carcharorion BAME oedd 45% o'r carcharorion ar gyfartaledd a oedd ar

restri misol o garcharorion peryglus a gyhoeddwyd rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020.

5.4.5 Roedd gwahaniaethau amlwg yn parhau mewn perthynas â charcharorion du a hil gymysg o darddiad Caribiaidd. Roedd y carcharorion hyn yn cyfrif am tua 4% o boblogaeth y carchar. Fodd bynnag, roedd carcharorion o'r cefndir hwn yn cyfrif am 10% o'r rheini a oedd yn cael eu cadw ar wahân rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2020. Roedd data ar ddefnyddio grym ar gyfer 2020 yn dangos bod y carcharorion hyn yn cynrychioli 20%, 9%, 11% a 14% o'r digwyddiadau ar gyfer misoedd Chwefror, Ebrill, Mai a Gorffennaf, yn y drefn honno. Mae'n drueni i gyfarfodydd DEAT ddechrau derbyn data BAME cyfanredol yn unig, a oedd yn cuddio tueddiadau o'r fath mewn grwpiau penodol.

5.4.6 Mae'r tueddiadau uchod mewn data monitro ethnig yn haeddu sylw. Mae'r Bwrdd wedi tynnu sylw at dueddiadau o'r fath yn ei ddau adroddiad blaenorol. Derbynnir, wrth ddelio â niferoedd cymharol fach, y gall anghysonderau effeithio ar ystadegau misol unigol, ond mae'r tueddiadau hyn wedi bod yn gyson dros dair blynedd.

5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

5.5.1 Cafodd y ddarpariaeth ar gyfer amrywiaeth o grefyddau ei gwella drwy benodi caplan Paganauidd a Bwdhaidd. Roedd darpariaeth dda ar gyfer carcharorion Mwslimaidd o hyd, a darparwyd ar gyfer Ramadan er gwaethaf y drefn gyfyngedig.

5.5.2 O ddiwedd mis Mawrth tan ddiwedd y cyfnod adrodd, ni chynhaliwyd unrhyw wasanaethau, er bod aelodau'r gaplaniaeth yn cynnig addoliad a chefnogaeth ar sail unigol.

5.5.3 Cafodd y gaplaniaeth dabled cyfrifiadurol, er mwyn i garcharorion allu mynd i angladdau ar-lein. Cafodd ei ddefnyddio ar sawl achlysur, ac mae'r Bwrdd yn deall iddo gael ei werthfawrogi gan y carcharorion hynny a oedd yn defnyddio'r cyfleuster hwn.

5.6 Cymhellion a breintiau a enillir

5.6.1 Roedd y data a oedd ar gael mewn perthynas â statws IEP yn dangos tuedd bod carcharorion BAME yn cael eu tangynrychioli ar y lefel uwch: 13% ym mis Hydref 2019, 12% ym mis Rhagfyr 2019, 12% ym mis Ionawr 2020 a 13% ym mis Chwefror 2020.

5.6.2 Roedd nifer y carcharorion ar lefel sylfaenol y cynllun yn amrywio rhwng 14 a 43 rhwng 1 Medi 2019 a diwedd Mawrth 2020. Ar ôl y dyddiad hwn, ni nodwyd bod unrhyw garcharorion ar y lefel sylfaenol tan fis Mai. Yn ystod yr wythnos yn dechrau 14 Mehefin, dechreuodd y Bwrdd gael adroddiadau am setiau teledu yn cael eu tynnu oddi ar rai carcharorion ar y lefel hon. Erbyn mis Awst 2020, mae'n ymddangos bod nifer y carcharorion ar y drefn sylfaenol wedi setlo'n ôl i lefelau cyn y cyfyngiadau symud.

6. Iechyd a lles

6.1 Gofal iechyd corfforol

6.1.1 Darperir gwasanaethau gofal iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae staffio'n broblem barhaus yn yr adran. Mae adolygiad 'gweithlu' yn cael ei gynnal, fel y gwnaed dros y ddwy flynedd diwethaf, ond, yn ddealladwy, cafodd ei ohirio eleni oherwydd pandemig COVID-19. Mae recriwtio o fewn y Bwrdd Iechyd yn broses faith. Mae'r fferyllfa wedi bod â swydd wag ar gyfer technegydd ers mis Mehefin ac roedd yn parhau heb ei llenwi erbyn diwedd y cyfnod adrodd.

6.1.2 Roedd 'nyrsys banc' yn darparu gwasanaeth pan oedd prinder o ran staff nyrsio. Gadawodd y cyfarwyddwr clinigol yn gynharach eleni a phenodwyd rhywun yn ei le ar sail tymor byr, ond ar hyn o bryd dim ond am un hanner diwrnod yr wythnos y gall hi fynd i'r carchar. Yn flaenorol, roedd diwrnod llawn yr wythnos wedi'i neilltuo i'r carchar. Mae'r Bwrdd yn deall y gallai'r bwloch hwn fod yn agored i'w drafod a gobeithio y bydd yn cynyddu.

6.1.3 Er gwaethaf y diffygion staffio cyffredinol hyn, mae'r tîm gofal iechyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth teilwng. Ysgrifennodd un carcharor: 'Pan glywais i gyntaf fod gen i ganser, cefais bythefnos galed, o ran nad oeddwn i'n gwybod beth i'w ddisgwyl ... sut y byddwn i'n cael gofal, gan fy mod i'n garcharor. Mae'r tîm gofal iechyd wedi fy helpu i fynd drwy gyfnod anodd, ac wedi bod yno i mi drwy'r amser, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny o waelod calon'.

6.1.4 Cyn y drefn gyfyngedig, roedd carcharorion yn gallu cael apwyntiadau i weld meddyg teulu, deintydd ac optegydd. Roedd amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau rheolaidd gyda'r meddyg teulu a'r deintydd o fewn normau cymunedol: 14–31 diwrnod ar gyfer meddygon teulu, a 37–49 diwrnod ar gyfer deintyddion. Roedd yr amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau deintyddol brys rhwng 15 a 22 diwrnod. Yn bryderus, roedd yn cymryd dros 70 diwrnod i gael apwyntiad gyda'r optegydd. Cafodd hyn ei liniaru gan staff gofal iechyd yn darparu sbectol ddarllen 'oddi ar y peg'.

6.1.5 Roedd ceisiadau gan garcharorion am ofal iechyd yn canolbwyntio ar feddyginiaeth ar bresgripsiwn (sy'n cyfrif am 28 o'r 63 cais) a mynediad at apwyntiadau. Mae'r carchar yn dilyn rheolau'r Bwrdd Iechyd ar feddyginiaeth, sy'n gwahardd rhagnodi rhai cyffuriau a chyfuniadau o gyffuriau. Yn gadarnhaol, mae staff gofal iechyd bellach yn gallu darparu meddyginiaeth y tu allan i'r oriau gweinyddu arferol, er mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae hyn ar gael.

6.1.6 Yn dilyn dechrau'r drefn gyfyngedig ar 23 Mawrth, cafodd 22 o garcharorion brawf positif am COVID-19. Yn dilyn prawf positif, cafodd carcharorion eu hynysu yn y ganolfan iechyd. Ni chafwyd unrhyw achosion positif o 15 Mai tan ddiwedd y cyfnod adrodd.

6.1.7 Roedd apwyntiadau meddygon teulu arferol yn dal i gael eu cynnal ar sail gyfyngedig, ac roedd apwyntiadau deintyddol a meddygon teulu brys ar gael hefyd. Cafodd ymgynghoriadau mewn ysbytai eu galluogi drwy alwadau ffôn, a darparwyd

galwadau fideo i alluogi carcharorion i gael ymgynghoriadau gyda fferyllwyr a'r nyrs feirysau a gludir yn y gwaed. Mae mynediad at apwyntiadau meddygon teulu arferol bellach wedi dychwelyd i'r drefn arferol cyn y cyfyngiadau symud.

6.2 Gofal iechyd meddwl

6.2.1 Fel gyda gofal iechyd corfforol, roedd gwasanaethau gofal iechyd meddwl hefyd yn dioddef problemau staffio, ac roeddent wedi gwneud hynny drwy gydol y flwyddyn adrodd. Nid oedd yr arweinydd tîm yn ei swydd rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Gorffennaf 2020, yna gadawodd ym mis Awst 2020. Ddiwedd mis Awst 2020, nodwyd nad oedd unrhyw ymarferwyr iechyd meddwl sylfaenol mewn swydd. Gadawodd y cwnselydd rhan amser, ac yn ystod mis Awst nid oedd y seiciatrydd ymgynghorol ar gael, er bod y tîm yn gallu cael gafael ar gymorth seiciatrig o gyfleusterau eraill ar gyfer un sesiwn yr wythnos.

6.2.2 Mae'r sefyllfa wedi'i helpu drwy benodi uwch nyrs sy'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchar. Roedd ei phenodiad yn rhan o gais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i gryfhau'r gwasanaeth gofal sylfaenol yn y carchar. Ers dechrau yn y swydd ym mis Gorffennaf 2020, mae'n ymddangos i'r Bwrdd fod y gwasanaeth yn symud ymlaen.

6.2.3 Roedd yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth oddeutu 33 yr wythnos ar gyfartaledd, a 27 y mis i'r seiciatrydd. Parhaodd y gwasanaeth â'r cyswllt wyneb yn wyneb yn ystod y cyfyngiadau symud a dywedodd nad oedd y cyfraddau atgyfeirio wedi newid yn sylweddol. Fodd bynnag, dywedodd llai na hanner y carcharorion yn arolwg y carchar eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan staff iechyd meddwl ar ddechrau'r cyfyngiadau symud (gweler paragraff 5.3.2). Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i weld atgyfeiriad oedd rhwng 20 a 28 diwrnod, er bod achosion brys fel arfer yn cael eu gweld ar yr un diwrnod. Roedd ffurflen brysbenneu wedi cael ei datblygu a'i hanfon at garcharorion a oedd wedi cael eu cyfeirio, er mwyn i'r tîm allu dechrau'r broses asesu ymlaen llaw drwy gael gwybodaeth ychwanegol.

6.2.4 Y llynedd, cychwynnwyd prosiect peilot, lle'r oedd y tîm yn mynd i'r adain gynefino i gwblhau agwedd iechyd meddwl y sgrinio iechyd eilaidd. Mae'r Bwrdd yn siomedig o glywed bod hyn wedi dod i ben oherwydd y problemau staffio, ond fe'i hysbyswyd y bydd, gobeithio, yn cael ei adfer pan fydd staff ar gael.

6.2.5 Cafodd cyfanswm o 19 o garcharorion eu trosglwyddo i unedau seiciatrig yn ystod 2019/20. Yn anffodus, nid yw gwybodaeth ynghylch hyd y trosglwyddiadau hyn ar gael. Er bod y trosglwyddiadau hyn fel arfer yn rhai 'didrafferth', o bryd i'w gilydd mae'r Bwrdd wedi mynegi rhai pryderon ynghylch gallu amrywiaeth o asiantaethau i weithio gyda'i gilydd er mwyn trosglwyddo'n hwylus rhwng y ddalfa a gofal seiciatrig. Mewn un achos penodol, oherwydd y perygl yr oedd y carcharor yn ei beri i'r cyhoedd ac iddo'i hun, rhoddwyd caniatâd i'r carchar ei ddal un diwrnod ar ôl ei ddyddiad rhyddhau, er mwyn galluogi iddo gael ei symud i leoliad addas.

6.4 Ymarfer, amser allan o'r gell

Ers rhoi'r drefn gyfyngedig ar waith ddiwedd mis Mawrth 2020, mae carcharorion wedi cael dau gyfnod o 45 munud allan o'u cell bob dydd, un yn y bore, ac un yn y prynhawn. Gallai carcharorion ddewis gwneud ymarfer corff cyfyngedig yn yr awyr agored yn ystod y cyfnodau hyn. Fodd bynnag, mae'r drefn hon wedi golygu bod y

rhan fwyaf o garcharorion yn aros yn eu celloedd am 22.5 awr y dydd. Dechreuodd staff y gampfa gynnig ymarfer wedi'i drefnu ar 27 Gorffennaf, a oedd ond yn cael ei ganiatáu y tu allan ac ar ffurf cylchedau yn yr awyr agored. Dim ond 10 carcharor allai gymryd rhan ym mhob sesiwn er mwyn cadw pellter cymdeithasol.

7. Cynnydd a rhyddhau

7.1 Addysg, llyfrgell

7.1.1 Cyn y cyfyngiadau symud ddiwedd mis Mawrth, roedd yr adran dysgu a sgiliau ar y trywydd iawn i gyrraedd eu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y flwyddyn.

7.1.2 Yn chwarter cyntaf y flwyddyn adrodd, roedd gan y Bwrdd rai pryderon ynghylch cysondeb yr addysg a gynigir i garcharorion ar adain B1 (yr adain carcharorion bregus). Ar adegau, nid oedd addysg ar gael ar yr adain gan fod staff wedi'u lleoli mewn mannau eraill. Mae'r adran dysgu a sgiliau yn ymwybodol o'r mater hwn ac wedi dweud wrthym eu bod yn ceisio cymryd camau i wella'r addysg a gynigir i'r carcharorion hyn.

7.1.3 Ers diwedd mis Mawrth 2020, ni chafwyd unrhyw addysg wyneb yn wyneb, proses gynefino nac asesu, felly nid yw'r adran wedi gallu darparu dysgu strwythuredig.

7.1.4 Mae pecynnau gweithgareddau wedi cael eu hanfon allan bob wythnos, gydag amrywiaeth o weithgareddau llythrennedd, rhifedd, lles a gemau. Newidir y rhain bob dydd Gwener. Mae pecyn ESOL arbenigol ar gael hefyd, yn ogystal â phecynnau gweithgareddau a thynnu sylw gan asiantaethau partner.

7.1.5 Mae'r adran dysgu a sgiliau wedi darparu deunydd cwrs penodol ar-alw i garcharorion ar gais staff yr adain, gan gynnwys cwrs mathemateg diweddar.

7.1.6 Mae'r llyfrgell wedi parhau i weithredu fel gwasanaeth ar-alw. Mae carcharorion yn rhoi gwybod i staff am y math o lyfrau y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddynt, ac mae detholiad addas yn cael ei ddanfoni i'r adain.

7.1.7 Er nad yw'n ddelfrydol, mae'r adran dysgu a sgiliau wedi gallu cynnig gwasanaeth cyfyngedig. Ychydig cyn diwedd y cyfnod adrodd, dechreuodd y gwaith cynllunio i ymestyn yr addysgu drwy sianeli teledu mewnol. Megis dechrau y mae hyn o hyd, ac mae disgwyl eiddgar y bydd yn cael ei lansio yn gynnar yn y flwyddyn adrodd nesaf.

7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

7.2.1 Rhoddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Estyn adroddiad da iawn i'r adran gweithgareddau ac addysg yn 2019, gan dynnu sylw at waith rhagorol ac arloesedd staff yr adran.

7.2.2 Mae'r gwasanaethau hanfodol yn y carchar yn cynnwys pacio bwyd, golchi dillad, rheoli gwastraff a chynhyrchu. Y targed ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer y meysydd hyn oedd 80%. Llwyddwyd i ragori 10% ar y targed hwn ym mhob maes yn ystod y chwarter cyntaf. Yn yr ail chwarter, rhagorwyd ar y targed eto – 10% ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, a 4% ym mis Chwefror.

7.2.3 Yn ystod mis Chwefror, gohiriwyd tri gweithdy. Rhoddwyd y gorau i adran bacio ar gyfer tryledwyr cyrs oherwydd materion yn ymwneud â chyflenwyr, a oedd yn cynnwys dyledion heb eu talu gan y cwmni i'r Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Cafodd gwaith y ganolfan alwadau ei ohirio gan nad oedd y cyflenwr yn glynu wrth ei gytundebau contract, a bu'n rhaid i'r gweithdy trwsio beiciau gydymffurfio â chanllawiau'r Gwasanaeth Carchardai a rhoi'r gorau i roi rhoddion i elusennau gyda beiciau wedi'u trwsio. Hysbyswyd y bwrdd bod cost i adnewyddu'r beiciau a bod angen i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf gael ei dalu am y gost honno, a oedd yn golygu na fyddai modd rhoi'r beiciau i'r elusen yn rhad ac am ddim mwyach.

7.2.4 Ar nodyn mwy cadarnhaol, sefydlwyd gweithdy hyfforddi barista newydd yn y chwarter cyntaf. Fe'i sefydlwyd fel gwasanaeth bwyd a diod, ac roedd yn profi'n llwyddiannus iawn, gan ddarparu cymwysterau NVQ mewn gwasanaethau bwyd a diod lefel 1, gwasanaeth cwsmeriaid lefel 1, a glanhau a chefnogi lefel 2.

7.2.5 Yr oedd cyfartaledd o 10 o gyn-filwyr y mis yn cyfarfod ag asiantaethau allanol, a oedd yn eu helpu i baratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Yn ystod y cyfyngiadau symud, treuliodd un swyddog cyn-filwyr amser gyda phob cyn-filwr bob pythefnos, er mwyn cynnal y cyfathrebu hwnnw a chyfeirio at y cymorth sydd ar gael.

7.2.6 Yn ystod y cyfyngiadau symud, dim ond y gwasanaethau hanfodol ar gyfer y carchar oedd yn parhau i weithredu'n llawn. Roedd y rhain yn cynnwys y gegin, golchi dillad, rheoli gwastraff a phacio brechwast. Roedd cefnogaeth i'r carchar hefyd yn cynnwys ffreutur, siopau, grwpiau gwaith a chynorthwyr. Roedd y rolau eraill a oedd yn cael eu darparu ar yr adeiniau yn cynnwys glanhawyr, hyrwyddwyr cymunedau diogelwch mwy diogel a chymheiriaid ar adeiniau. Gosodwyd targed adnoddau'r diwydiannau ar 80%. Llwyddwyd i gyrraedd 89% yn ystod mis Awst.

7.2.7 Meysydd ychwanegol oedd cymorth addysg, gwaith cell, cynefino â'r adain a therapi ar gyfer adain B. Roedd canran cyfartalog y carcharorion a oedd yn mynychu yn 29.6% ar gyfer mis Ebrill a mis Mai, 43% ar gyfer mis Mehefin, 40% ar gyfer mis Gorffennaf a 39% ar gyfer mis Awst.

7.2.8 Yn ystod y cyfyngiadau symud, cafodd yr holl garcharorion eu talu ar y dderbynfa pan oeddent yn cael eu cynefino ar yr uned cohort dros dro (RCU). Roeddent yno am 14 diwrnod tra roeddent mewn cwarantîn. Yna roeddent yn cael eu trosglwyddo i'r adain 'therapi gweithgareddau', a pharhaodd y taliadau dyddiol os nad oedd lle wag ar gael mewn gweithgaredd. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd gan tua 250 o garcharorion waith ystyrlon. Mae'r drefn COVID-19 yn cyfyngu ar ragor o gyfleoedd.

7.2.9 Ers y cyfyngiadau symud, nid yw'r adran dysgu a sgiliau a'r broses cynefino/asesu addysg wedi bod yn weithredol, felly nid oes unrhyw ddysgu

strwythuredig wedi cael ei ddarparu. Mae lleiafrif o garcharorion yn parhau i gwblhau cyrsiau dysgu o bell strwythuredig y Brifysgol Agored.

7.3 Rheoli troseddwy'r a chamu ymlaen

7.3.1 Cyflwynodd 'ffyrdd newydd o weithio' COVID-19 y cynllun rhyddhau dros dro ar ddiwedd y cyfnod cadw (ECTR) a'r cynllun trwydded pwrpas arbennig (SPL) (ar gyfer carcharorion agored i niwed). Roedd llai o garcharorion yn cael eu rhyddhau dan y cynllun hwn nag a ragwelwyd yn wreiddiol, gyda phump yn cael eu rhyddhau dan y cynllun ECTR a dim un yn cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer SPL. Roedd gan garcharorion a oedd yn cael eu rhyddhau ar y system ECTR i gyd lety ac felly nid oedd angen cefnogaeth tai arnynt. Y prif angen o ran cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn oedd cymorth i hawlio budd-daliadau.

7.4 Cyswllt â theulu

7.4.1 Roedd nifer yr ymweliadau cymdeithasol a'r 'Ymweliadau Porffor' (ymweliadau o bell) pan laciwyd y cyfyngiadau symud ym mis Gorffennaf a mis Awst wedi aros yn isel ar draws pob adain. Dim ond 10% o slotiau Ymweliadau Porffor a 25% o slotiau ymweliadau cymdeithasol a archebwyd. Yr oedd nifer o resymau dros y niferoedd isel hyn. Dywedodd rhai carcharorion fod y profiad ar ymweliadau cymdeithasol yn wael, o ystyried bod yn rhaid iddynt gadw pellter cymdeithasol oddi wrth eu hymwelwyr, ei bod yn anodd cael eu clywed wrth wisgo masgiau ac nad oedd cyfleusterau chwarae i blant. Hefyd, roedd rhai aelodau o'r teulu naill ai'n gyndyn, neu'n ei chael yn anodd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddiogel i gyrraedd y carchar. Er bod y profiad o ddefnyddio Ymweliadau Porffor yn dda, fel yr adroddwyd gan garcharorion a oedd yn rhan o'r treialon cynnar, mae'n bosibl bod y cynnydd araf wedi bod yn rhannol oherwydd diffyg gallu, neu ddiffyg parodrwydd ymwelwyr i lwytho'r ap i lawr a dod yn gyfarwydd â'r dechnoleg.

7.4.2 Nid yw PACT wedi gallu dod i'r carchar ers mis Mawrth 2020, ac felly nid yw wedi gallu cynnig cymorth i deuluoedd yn y ffordd maen nhw'n ei wneud fel arfer.

7.4.3 Drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud, mae'r adran dysgu a sgiliau wedi cynnig gwasanaeth negeseuon digidol i'r carcharorion, lle gallant gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd drwy DVD.

7.5 Cynllunio Ailsefydlu

7.5.1 Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu â chyflogwyr canolfannau galwadau ym mis Medi, i annog mwy o gyflogwyr yn y diwydiant canolfannau cyswllt i gyflogi carcharorion pan gânt eu rhyddhau o'r ddalfa.

7.5.2 Llwyddodd hyfforddwyr swyddi'r Adran Gwaith a Phensiynau i gael swydd i garcharor sy'n gweithio yn y golchdy, drwy un o'u cysylltiadau – Afonwen Laundry

and Linen Hire Ltd. Cynigiwyd swydd iddo ar ôl iddo gael ei ryddhau, ar 23 Hydref 2019.

7.5.3 Datblygwyd cwrs 11 wythnos 'Inside Out' mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, gan ddechrau ym mis Hydref. Y teitl oedd 'Crime and Social Justice in Global Perspective', a chafodd chwech o garcharorion ac wyth o fyfyrwyr y gyfraith eu recriwtio. Er nad yw'r cwrs wedi'i achredu, mae dysgwyr sy'n cwblhau'r cwrs yn cael tystysgrifau presenoldeb.

7.5.4 Yn ystod mis Chwefror 2020, cafodd cyn-filwr o'r fyddin gyflogaeth ar ôl cael ei ryddhau, o ganlyniad i'r berthynas waith dda yr oedd wedi'i meithrin gyda'i weithiwr achos ailsefydlu a'i bresenoldeb yng nghyfarfodydd misol y cyn-filwyr. Cafodd ei gyfweld gan y tîm ailsefydlu cyn gadael a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at ailadeiladu ei fywyd ar ôl cael ei ryddhau.

7.5.5 Darparwyd Gam Care ar bob ffôn carcharor fel gwasanaeth rhad ac am ddim i *Gambling Anonymous*. Mae hyn wedi darparu gwasanaeth cefnogi i'r rheini sydd ei angen ar draws y sefydliad.

7.5.6 Roedd y cyfleuster i agor cyfrif banc yn parhau i fod yn boblogaidd, gyda 22 cyfrif yn cael eu sefydlu ym mis Chwefror, 10 ym mis Mai, 20 ym mis Mehefin a naw arall ym mis Awst.

7.5.7 Pan ddechreuodd cyfyngiadau symud yn y carchar ym mis Mawrth, ni chafodd y tîm ailsefydlu gyswllt wyneb yn wyneb â'r carcharorion ar ôl hynny. Sefydlodd y tîm broses lle'r oedd ffurflenni a thafleuni canllaw ategol yn cael eu pasio dan ddrysau celloedd a'u casglu y diwrnod canlynol. Roedd hyn yn caniatáu i'r gwaith o brosesu gweithgareddau allweddol, fel ceisiadau am dai a cheisiadau banc, barhau. Cynigiwyd cefnogaeth drwy'r drws, os oedd hynny'n briodol, gyda chyfarpar diogelu personol ar gael i staff yn yr amgylchiadau hyn. O ganlyniad i risgiau COVID-19, nid oedd unrhyw gynghorwyr cymheiriaid gweithredol. Fel arfer, roedd anghenion sy'n gysylltiedig â thai yn 2018/19 yn rhedeg ar gyfartaledd o 168 y mis. Roedd yn amlwg bod nifer yr ymgynghoriadau ar anghenion tai wedi gostwng i ddim ond tri ym mis Ebrill, gan godi i 87 ym mis Mai. O fis Mehefin ymlaen, cynyddodd nifer yr ymgynghoriadau'n raddol eto, ac erbyn mis Gorffennaf roeddent wedi cyrraedd 150, sy'n fwy na chyfartaledd y flwyddyn flaenorol.

7.5.8 O ganlyniad i'r mesurau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru, cynigiwyd llety i bob carcharor a oedd yn ddigartref ar ôl eu rhyddhau yn ystod cyfnod cyfyngiadau COVID-19.

7.5.9 Cyflwynwyd cais am sgrin Persbecs ddechrau Awst, er mwyn i staff ailsefydlu allu cynnal cyfweiliadau diogel gyda charcharorion. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, nid oedd y sgrin byth wedi cael ei gosod.

8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Ystadegau'r Bwrdd 2019/2020

Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymhell	14
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	15
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	13
Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad	163
Cyfanswm yr adolygiadau cadw ar wahân a fynychwyd	19

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

Cod	Pwnc	Blwyddyn adrodd flaenorol	Blwyddyn adrodd bresennol
A	Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi	20	26
B	Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cymhellion a breintiau haeddiannol (IEP), sancsiynau	2	6
C	Cydraddoldeb	10	4
D	Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, y llyfrgell, trefn, amser y tu allan i'r gell	54	27
E1	Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd	30	34
E2	Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	21	17
F	Bwyd a cheginau	3	5
G	Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol	63	98
H1	Eiddo yn y sefydliad hwn	24	8
H2	Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn sefydliad neu leoliad arall	18	17
H3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au)	16	20
I	Rheoli dedfryd, gan gynnwys cyrffiw cyfyngu i'r cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	28	42
J	Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio	19	61
K	Trosglwyddiadau	23	28
L	Amrywiol, gan gynnwys y system gwyno	161	112
	Cyfanswm y ceisiadau	492	505



Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk.